Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Hermon

Yr Hen Ysgol Hermon
Glog
SA36 0DT

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Hermon

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Hermon |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Nia George |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Bethan James, Tamara Edwards |
| Nifer y lleoedd | 20 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 14 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Iau 8.15-13.00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi, ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hydref 2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 24/03/2026 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Adolygu'r polisi meddyginiaeth i sicrhau ei fod yn adlewyrchu gweithdrefnau'r lleoliad a chanllawiau cyfredol.

A2 Mireinio asesiadau risg i ychwanegu a diweddaru gwybodaeth sy'n adlewyrchu gweithdrefnau cyfredol y lleoliad.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae bron bob plentyn yn gwneud dewisiadau llwyddiannus ac yn dangos ymdeimlad o reolaeth dros eu hamser. Maent yn mynegi eu dymuniadau'n naturiol, gan ddewis chwarae'n rhydd yn yr ardaloedd neu weithgaredd penodol. Mae eu syniadau'n dylanwadu ar eu profiadau yn y lleoliad, er enghraifft trwy gyfrannu at lyfryn llawr mawr o'u syniadau sy'n arwain at ddigwyddiadau penodol, gan gynnwys bwyd a chrefft at Ddydd Gŵyl Dewi a'r parti porffor. Mae'r plant hefyd yn cymryd rhan wrth bleidleisio ar gyfer stori amser mynd adref, gan ddefnyddio eu henwau ac yna'n cyfrif y canlyniadau.

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn ymgartrefu'n hyderus wrth gyrraedd, gan drefnu eu bagiau a'u cotiau cyn ymuno yn y chwarae. Mae rhai sy'n ansicr yn cael amser tawel gyda rhieni ac ymarferwyr cyn ymuno â'r grŵp. Mae bron bob plentyn yn galw ar ymarferwyr ar adegau i gefnogi gweithgaredd neu i gael cysur. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfforddus gyda threfn y diwrnod ac yn ei dilyn gyda sicrwydd, gan gynnwys ffurfio rhes daclus heb anogaeth, neu ymuno ag amser trafod.

Mae bron bob plentyn yn dysgu sut i wneud ffrindiau ac yn rhyngweithio'n hyderus. Maent yn mwynhau chwarae dychmygol gan sgwrsio, rhannu syniadau a chymryd eu tro. Er enghraifft, mae plant yn dynwared parti pen-blwydd ac yn ffonio rhieni yn yr ardal chwarae rôl gartref, ac yn gwerthu llysiau a ffrwythau yn y siop. Mae'r plant yn eiddgar i gymryd rhan mewn gweithgareddau gydag ymarferwyr, gan gynnwys symud yn ofalus yn ystod cyfnod o ymarfer corff, neu ddefnyddio offerynnau cerdd wrth ganu.

Mae bron bob plentyn yn dangos brwdfrydedd wrth gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau. Maent yn dangos mwynhad amlwg ac yn archwilio gyda chwilfrydedd wrth gwblhau arbrofion gyda losin, sleim neu ddŵr lliwgar. Mae nifer o blant yn dangos dyfalbarhad wrth gwblhau tasgau fel adeiladu jig-so neu wrth ymdrechu i wisgo esgidiau'n gywir. Maent yn gwneud cysylltiadau ystyrlon rhwng eu profiadau, ac yn mwynhau adolygu fideos o'u profiadau ar y sgrin fawr ryngweithiol, gan ddangos balchder a chyffro wrth adnabod digwyddiadau ystyrlon.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau annibyniaeth cryf ac yn ymgymryd â thasgau dyddiol yn hyderus. Maent yn clirio powlenni ar ôl brecwast heb ysgogaeth, ac yn estyn gweithgaredd at y bwrdd tra'n aros i eraill orffen bwyta. Mae'r plant yn defnyddio adnoddau'n annibynnol ac yn symud rhwng yr ardaloedd gan benderfynu ble i chwarae a gyda phwy. Mae rhai plant hefyd yn mwynhau cyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu at dasgau trwy helpu ymarferwyr i rannu ffrwyth, estyn cynhwysion neu ddadbacio'r fasged bwyd ar ôl i'r siopa cyrraedd, sy'n annog hyder ac ymdeimlad o gyfrifoldeb.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn. Maent yn datblygu eu medrau'n gyson ac yn hyderus ar draws amrywiaeth eang o weithgareddau.

Mae medrau llafar y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n gadarn wrth iddynt sgwrsio'n hamddenol am eu profiadau a'u hoffterau yn ystod amser snac ac wrth eistedd gydag oedolion. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion a mynegi hoffterau. Er enghraifft, maent yn dewis eu hadnoddau eu hunain wrth chwarae yn y byd bach ac yn sgwrsio'n hyderus wrth ddarllen llyfrau gydag oedolion. Maent yn ailadrodd geirfa a chwestiynau holi ac ateb yn ystod amser cylch. Maent yn canu rhigymau a chaneuon cyfarwydd yn hyderus. Mae'r plant yn greadigol ac yn hyderus wrth greu marciau yn yr ardal marcio a pheintio y tu fewn a thu allan wrth ddefnyddio sialc ar amrywiaeth o arwynebau. Maent yn enwi a thrafod lliwiau yn hyderus wrth arbrofi â chymysgu dŵr lliwgar ac wrth drafod tyfu blodau.

Maent yn weithgar yn gorfforol ac yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus drwy arllwys, llenwi a chymysgu cynhwysion i wneud pancos ac wrth ddefnyddio beiciau a sgwteri yn fedrus. Mae llawer o blant yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch wrth ddatblygu eu medrau corfforol, er enghraifft wrth geisio edafu grawnfwyd ar ddarn o sbageti ac wrth geisio gwisgo siwt law i fynd tu allan. Maent yn ymdrin ag offer digidol yn hyderus, er enghraifft wrth dynnu lluniau o'u gweithgareddau fel defnyddio pibed i ddiferu dŵr lliwgar, neu pan fyddant yn defnyddio meicroffon i ganu a pherfformio i'w ffrindiau.

Mae'r rhan fwyaf yn dechrau defnyddio geirfa fathemategol â hyder cynyddol yn eu chwarae. Maent yn cyfri i bump yn hyderus wrth gyfri nifer y plant sydd wedi dewis stori i'w darllen ar ddiwedd sesiwn. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth gyfri hyd at 10 ac yn ôl ar y cyd, gan bwyntio at y rhifau cywir ar arddangosfa wal wrth wneud hynny.

Mae medrau datrys problemau y plant yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn medru dewis adnoddau a deunyddiau addas at dasg a gwybod ble i gael hyd iddynt. Er enghraifft, maent yn estyn pren, morthwyl a gogls diogelwch cyn cychwyn yn yr ardal gwaith coed, neu'n estyn offer toes o'r drâr yn y gegin.

Mae'r plant yn datblygu'n dda yn gymdeithasol, gyda'r rhan fwyaf yn medru mynegi teimladau'n hyderus yn ystod amser cylch. Maent yn medru canolbwyntio am gyfnodau estynedig, er enghraifft wrth wneud persawr yn y gegin fwd neu wrth geisio helpu'r tedis i ddianc yn y twba dŵr. Mae eu medrau moesol yn datblygu'n effeithiol. Maent yn rhannu adnoddau'n dda ac yn cyd-weithio i gwblhau gweithgareddau, ac yn dangos hoffter, parch a charedigrwydd at ei gilydd.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol i gynnal safonau iechyd a diogelwch, ac yn gweithredu polisïau yn gyson. Maent yn ymwybodol o'u rôl a chyfrifoldebau i ddilyn arferion hylendid ac yn sicrhau preifatrwydd ac urddas plant. Maent yn cwblhau cofrestrau'n fanwl ac yn cyfathrebu'n drylwyr er mwyn sicrhau goruchwyliaeth effeithiol o'r plant. Mae ymarferwyr wedi eu hyfforddi'n briodol mewn hylendid bwyd, yn annog dewisiadau iach, ac mae gwybodaeth am unrhyw alergeddau yn drwyadl. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae ymarferwyr wedi eu hyfforddi i ddiogelu plant ac yn deall eu cyfrifoldebau, ac mae trefniadau cadarn i ddiweddaru hyfforddiant uwch arweinwyr. Mae dogfennau damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth yn drylwyr ac mae ymarferwyr wedi hyfforddi'n briodol mewn cymorth cyntaf. Fodd bynnag, nid yw'r polisi meddyginiaeth yn adlewyrchu gweithdrefnau'r lleoliad a chanllawiau cyfredol yn effeithiol nac yn rhoi arweiniad clir i ymarferwyr.

Mae ymarferwyr yn rhyngweithio'n gynnes ac yn barchus â'r plant ac yn gosod esiampl dda trwy fod yn garedig, sy'n creu awyrgylch gofalgar a chefnogol. Maent yn rheoli ymddygiad yn gadarnhaol, gan feithrin parch a thegwch rhwng plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd i blant ddatblygu empathi a pharch trwy gefnogi dealltwriaeth o emosiynau neu gan ofyn i blant helpu i benderfynu pa resymau positif ddylai gael eu hysgrifennu ar dystysgrif helpwr y dydd. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o sut i ymyrryd yn sensitif pe bai ymddygiad heriol yn codi, gan esbonio disgwyliadau'r lleoliad yn glir i gefnogi dewisiadau positif ac ymwybyddiaeth gymdeithasol y plant. Maent hefyd yn defnyddio canmoliaeth yn bwrpasol ac yn effeithiol, gan dynnu sylw at gamau bach y plant i rannu eiliadau o lawenydd rhwng ei gilydd. Er enghraifft, maent yn ailadrodd jôcs y plant neu'n rhannu sticeri sêr aur fel gwobr gan Colin y crwban caredig.

Mae ymarferwyr yn deall anghenion a diddordebau'r plant yn dda, ac maent yn creu profiadau sy'n adlewyrchu hyn. Mae amseroedd bwyta yn gyfnodau cymdeithasol lle mae plant yn trafod eu dewisiadau ac yn gofyn i wneud gweithgareddau penodol y diwrnod canlynol. Mae ymarferwyr yn ymateb i'r hyn sy'n sbarduno diddordeb plant yn effeithiol, er enghraifft wrth gefnogi cyfle i adeiladu deinosor yn yr ardal gwaith coed a goruchwylio defnydd tâp mesur, hoelion a morthwyl. Mae ymarferwyr hefyd yn ymestyn profiadau'n fedrus, mewn modd sy'n annog plant i holi cwestiynau a gwneud sylwadau. Mae eu brwdfrydedd naturiol yn meithrin ymdeimlad o gyffro yn y plant, er enghraifft trwy ymestyn gofal dychmygol am ddoli wedi'i anafu. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson ac yn atgyfnerthu patrymau iaith clir, gan fodelu iaith naturiol a chefnogi dealltwriaeth y plant. Mae ymarferwyr yn deall sut i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol a sut i gydweithio'n effeithiol â rhieni ac asiantaethau allanol, pan fo angen, er mwyn cefnogi datblygiad a lles y plant.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn meithrin perthynas agos, gartrefol â'r plant. Maent yn trafod yn hamddenol gyda nhw ac maent yn ymwybodol o'u gofynion unigol. Maent yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cynnig profiadau gwerthfawr ac yn ymateb i anghenion y plant yn llwyddiannus, yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, mae plant yn ymgolli yn eu chwarae am gyfnodau estynedig.

Mae ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac yn cynllunio profiadau dysgu ystyrlon sy'n ymateb yn effeithiol i anghenion, diddordebau a lleisiau'r plant. Maent yn cynnig cydbwysedd o brofiadau dysgu strwythuredig a chyfleoedd i ddysgu trwy brofiad sy'n datblygu medrau'r plant yn bwrpasol. Maent yn cadw cofnodion manwl o gyflawniadau plant ac yn cynnal arsylwadau gwerthfawr sy'n llywio'r camau nesaf yn eu datblygiad yn gyson. Mae ymarferwyr yn defnyddio systemau cofnodi arsylwadau a gwybodaeth yn drwyadl ac yn galluogi'r ymarferwyr i gynllunio profiadau priodol ac i rannu gwybodaeth berthnasol â'r rhieni a'r ysgol, gan sicrhau trefniadau pontio effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn gadarn. Mae ymarferwyr yn addysgu'r plant am y gwahaniaeth rhwng da a drwg, a phwysigrwydd parchu eraill. Maent yn cefnogi'r plant yn effeithiol i ddatblygu ymddygiad caredig drwy eu hatgoffa mewn modd cadarnhaol i rannu ac i ddefnyddio lleisiau a geiriau caredig wrth chwarae.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ac yn trefnu adnoddau'n ofalus er mwyn cynnig darpariaeth eang o ansawdd uchel sy'n cefnogi datblygiad medrau ar draws y llwybrau dysgu. Mae adnoddau eang wedi eu trefnu'n bwrpasol gan yr ymarferwyr ar gael i ennyn chwilfrydedd y plant ac i ddarparu cyfleoedd dysgu dilys, fel moch y coed, disgiau pren a llestri tsieni yn y gegin. Gwneir defnydd medrus o ardaloedd penodol, megis yr ardal sensori a'r ardal awyr agored, er mwyn cefnogi datblygiad emosiynol, corfforol a chreadigol y plant.

Mae ymarferwyr yn annog y plant i ddatblygu medrau rhifedd effeithiol drwy amrywiaeth o gyfleoedd pwrpasol, fel cyfri nifer y llwyau o flawd sy'n mynd i mewn i'r bowlen wrth goginio. Maent yn hyrwyddo medrau datrys problemau a chyfathrebu'r plant yn dda, gan annog y plant i holi ac ateb cwestiynau a thrwy annog y plant i feddwl am yr hyn y maent yn ei wneud.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin cysylltiadau cadarnhaol ac ystyrlon â'r gymuned leol. Maent yn cynllunio ymweliadau a gweithgareddau ystyrlon fel canu carolau a dosbarthu cardiau Nadolig i bobl y pentref, a thrwy wahodd ymwelwyr i'r lleoliad, gan gynnwys yr heddlu a'r goruchwylydd croesfan. Mae'r ymarferwyr hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o berthyn i Gymru drwy ddathlu diwylliant, traddodiadau a digwyddiadau cenedlaethol a byd-eang,

gan gynnwys Sul y Cofio a Diwali, ac mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth y plant o'u cymuned leol a'r byd ehangach.

### Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn creu amgylchedd cynnes a chroesawgar sy'n meithrin balchder ac ymdeimlad cryf o berthyn ymhlith y plant. Mae'r waliau'n llawn gwaith celf y plant a ffotograffau ohonynt ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys arddangosfeydd teuluoedd, murluniau Cymreig ac arddangosfa llais y plant, sy'n cynnwys eu barn am weithgareddau. Mae plant yn amlwg yn falch iawn o'r profiadau ac yn pwyntio at y lluniau, gan siarad am ymwelwyr i'r lleoliad, fel y goruchwylydd croesfan sy'n eu helpu i groesi'r ffordd. Mae'r ystafelloedd yn cynnig ardaloedd synhwyraidd a chreadigol, adeiladu a byd bach ac ardal dawel i ddarllen, gyda theganau meddal. Tu allan, mae ardal gaeedig sy'n cynnig cyfleoedd helaeth i archwilio adnoddau naturiol, wal ddŵr, plannu a sied sy'n cynnig mwy o gyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth a medrau ymarferol, fel ardal gwisgo i fyny a mainc gwaith coed.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau o ansawdd uchel sydd wedi eu trefnu i gefnogi pob maes dysgu. Maent yn sicrhau bod plant yn gallu symud yn rhydd o amgylch y lleoliad ac yn medru cael mynediad hawdd at adnoddau trwy unedau a dodrefn addas i'w hoedrannau a chamau datblygiad. Mae arweinwyr yn gwerthuso defnydd adnoddau a chyfarpar ac yn adnewyddu gweithgareddau a theganau i sicrhau amgylchedd ysbrydoledig. Mae cymysgedd o adnoddau sy'n hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth diwylliannol, gan gynnwys doliau sy'n dathlu gwahaniaethau corfforol a diwylliannol. Mae arweinwyr yn cynnig amrywiaeth o brofiadau ymarferol gan gynnwys ymwelwyr fel yr heddlu, adeiladwyr a ffermwyr i gefnogi dealltwriaeth y plant o ddiwydiannau lleol. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd cyson i fynd ar ymweliadau neu i fynd am dro, ymweld â thrigolion y pentref neu siopa'n lleol i feithrin ymdeimlad o gynefin.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel, glân ac o ansawdd uchel. Mae'r giatiau allanol wedi eu cloi ac mae ymarferwyr yn rheoli mynediad i'r lleoliad drwy weithredoedd effeithiol a chyfathrebu clir. Maent yn sicrhau bod ymwelwyr yn arwyddo i mewn ac allan. Mae driliau tân ac ymarferion argyfwng yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac mae arweinwyr yn sicrhau bod offer cymorth cyntaf a thystysgrifau diogelwch yn gyfredol. Maent yn cwblhau ystod eang o asesiadau risg ar gyfer ardaloedd a gweithgareddau'r lleoliad, ac ymweliadau ac ymwelwyr penodol. Fodd bynnag, nid yw pob asesiad risg yn adlewyrchu'r hyn y mae ymarferwyr yn ei wneud o ddydd i ddydd i fonitro risgiau. Maent yn rheoli ffyrdd o leihau risgiau i blant yn naturiol drwy drafod yn fanwl effaith a chamau angenrheidiol, er enghraifft wrth chwarae tu allan yn y gwynt a'r glaw neu rannu cyfleusterau'r lleoliad gydag aelodau'r gymuned.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn gadarn ac yn effeithiol, gydag arferion diogelwch ac ethos cadarnhaol wrth wraidd y ddarpariaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith sy'n hawdd eu cyrchu gan ymarferwyr a rhieni, gyda gwybodaeth berthnasol yn cael ei harddangos yn amlwg yn y brif fynedfa. Mae hyn yn cyfrannu at ddiwylliant cryf o ddiogelwch. Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â gofynion y rheoliadau ac yn cyflwyno Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg. Mae'r datganiad o ddiben yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r lleoliad yn gywir.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel sy'n sicrhau bod pawb yn cydweithio'n llwyddiannus. Maent yn frwdfrydig ac wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd ysgogol a phwrpasol. Mae prosesau recriwtio yn ddiogel ac yn drylwyr er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd yn addas i weithio gyda phlant. Mae systemau goruchwylio ac arfarnu trwyadl ganddynt, gyda thargedau cytunedig a monitro cynnydd yn rheolaidd.

Mae rheolaeth drylwyr o'r ymarferwyr ac adnoddau yn sicrhau bod gweledigaeth arweinwyr yn cael ei gwireddu. Maent yn sicrhau bod arweinwyr yn cyfrannu at drafodaethau goruchwylio ynghyd â hunanarfarniad y lleoliad yn bwrpasol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau dyddiol yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau. Er enghraifft, mae arweinwyr yn cynnwys ymarferwyr wrth gynllunio profiadau dysgu a chwarae ar gyfer y plant. Mae hyn yn cynnal lles a hyder ymarferwyr yn llwyddiannus ac mae ganddynt fwy o berchnogaeth dros eu gwaith.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu'r materion y maent yn dymuno'u gwella ac yn gweithredu arnynt yn llwyddiannus. Er enghraifft maent wedi mabwysiadu rhaglen sy'n hybu medrau emosiynol a chymdeithasol plant, yn unol â thargedau'r cynllun gwella. Defnyddir cyllid a grantiau'n briodol ac yn strategol i wella ansawdd y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn monitro ac yn gwerthuso'r gwariant yn ofalus. Mae buddsoddiadau diweddar wedi arwain at welliannau pendant, fel gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cryfhau medrau digidol plant, a chefnogi costau staffio i sicrhau cymhareb oedolion effeithiol.

Mae arweinwyr yn meithrin cysylltiadau buddiol ag ystod o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles y plant. Mae eu perthynas â'u sefydliad cymorth a'r athrawes ymgynghorol yn gadarn, ac mae cydweithio rheolaidd yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu a mireinio'r ddarpariaeth. Maent hefyd yn ymateb yn effeithiol i bryderon, gan gyfeirio unigolion yn bwrpasol at yr asiantaethau priodol.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu â rhieni yn effeithiol ac yn adeiladol, gyda gwybodaeth am ddatblygiad y plant yn cael ei rhannu'n rheolaidd trwy gyfarfodydd, adroddiadau a thrafodaethau anffurfiol. Mae arweinwyr yn hybu cyfraniad rhieni at ddysgu'r plant yn

effeithiol. Er enghraifft, maent yn rhannu recordiadau o'r rhieni yn adrodd straeon a chanu hwiangerddi a rhigymau cyfarwydd gyda'u plant fel adnoddau dysgu er mwyn eu dosbarthu i rieni eraill fel eu bod yn medru cefnogi eu plant adref. O ganlyniad, mae'r cysylltiad rhwng y cartref a'r lleoliad yn gryf ac mae profiadau dysgu'r plant yn cael eu hatgyfnerthu'n  llwyddiannus. Mae gan arweinwyr drefniadau pontio cadarn, sy'n cynnwys ymweliadau â'r ysgol a rhannu gwybodaeth berthnasol am y plant. Mae hyn yn rhoi pob cyfle i'r ysgol baratoi ar gyfer dyfodiad y plant wrth iddynt symud ymlaen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/05/2026